# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**2016 dccc 4**

## RHAN 5

CYFFREDINOL

### 41 Dod i rym

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf hon i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1;

(b) adran 2;

(c) adrannau 3, 5 ac 11 ac Atodlen 1, i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p.46);

(d) adran 23;

(e) adrannau 24 ac 28 ac Atodlen 2, i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9);

(f) y Rhan hon.

(2) Daw adrannau 6 i 9, 12 i 17, 19 i 22, 27, 29, 30(1) i (5), 32 a 33 i rym ar ddiwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym, a daw adrannau 3, 5, 11, 24 ac 28 ac Atodlenni 1 a 2 i rym at y dibenion sy'n weddill, ar unrhyw ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 41 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Rhaid i orchymyn o dan is-adran (3) gael ei wneud drwy offeryn statudol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(1)(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 41 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2023 asc 3 Sch. 13 para. 193